Ysgol Casmael

Caredigrwydd,
Cyfrifoldeb,
Cymreictod,
Celsio Gorau Glas.



Gwybodaeth i Rieni/
Information for Parents

GWYBODAETH I RIENI/ INFORMATON FOR PARENTS

ENW A CHYFEIRIAD YR YSGOL/SCHOOL NAME AND ADDRESS
Ysgol Gynradd Casmael/Puncheston C.P.School
Casmael
Hwlffordd
Sir Benfro
SA62 5RL

RHIF FFON/RHIF FFACS/ PHONE NUMBER/FAX
(01348) 881321

CYFEIRIAD E-BOST/E-MAIL ADDRESS
lawrencea9@hwbcymru.net
head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

PENNAETH/HEADTEACHER
Mrs. A. Lawrence

Awdurdod Addysg Lleol: Cyngor Sir Penfro
Cyfarwyddwr Addysg: Mr. Steven Richard Downes. Adran Addysg, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro. SA61 1TP

Local Education Authority: Pembrokeshire County Council
Director of Education: Mr. Steven Richard Downes, Education Department, County Hall, Haverfordwest, Pembrokeshire. SA61 1TP

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR/ CHAIR OF GOVERNORS
Mr. M. Williams

CYNRYCHIOLYDDION RHIENI/PARENT REPRESENTATIVES
Mr. M. Williams
Mr. D. Winton

STAFF DYSGU/TEACHING STAFF
Mrs. E. Phillips Cyfnod Sylfaen/ Foundation Phase 1 a 2
Mrs. S. George/Mrs.S. Berridge – Blwyddyn 3 & 4 /Years 3 & 4
Miss. E. Maycock/Mrs. A. Lawrence – Blwyddyn 5&6/Years 5&6
Mrs. S. George -ALNCO

STAFF ATEGOL/AUXILLIARY STAFF

Mrs. J.James – Swyddog ymgysylltiad teuluol/Family Engagement Officer

Mrs. C. James – Cynorthwy-ydd Dysgu/Learning Support

Mrs E Beynon – Gweinyddwr/Administrator

Mr. T. Miles – Gofalwr/ Caretaker

Miss. S. Miles – Glanhawr/Cleaner

STAFF Y GEGIN/KITCHEN STAFF

Mrs.B. Williams – Cogydd/Cook

Mrs. J.James – Goruchwylydd Brecwast /Breakfast Supervisor

Miss. V. Burt - Goruchwylydd Awr Ginio a Brecwast /Lunchtime and Breakfast Supervisor

Mrs. A. Griffiths – Goruchwylydd Awr Ginio/Lunchetime Supervisor

STAFF PERIPATETIG/PERIPATITIC STAFF

Athrawon offerynnol/Instrumental teachers

Miss. Emily Sweeney Davies

Mrs. Katherine Bott



Croeso i Ysgol Casmael

Annwyl Rieni,

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Prosbectws Ysgol i chi.
Mae ysgol Casmael yn rhan o ffederasiwn. Mae Ffederasiwn Ysgolion Casmael a Llanychllwydog yn cynnwys dwy ysgol gynradd wledig yng ngogledd Sir Benfro, sef Ysgol Casmael ac Ysgol Llanychllwydog. Mae'r ysgolion yn rhannu un pennaeth ac un corff llywodraethol. Mae'r ffederasiwn yn ymdrechu i sicrhau bod y ddwy ysgol yn parhau i fodoli yn unigol er mwyn cadw eu hunaniaeth unigryw, ond yn perthyn i rywbeth sydd yn fwy. Mae'r trefniant yma yn adeiladu ar gryfderau'r ddwy ysgol heb iddynt golli eu hunaniaeth.
Ein nod fel ffederasiwn yw i ddarparu amgylchedd dysgu diogel, ysgogol a maethlon, lle mae unigolion yn cyrraedd eu potensial llawn; lle mae'r iaith Cymraeg a'r dreftadaeth Gymreig yn rhan annatod o fywyd bob dydd; lle mae'r ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu wedi'u hintegreiddio'n llawn, a'r holl gyfleoedd sydd ar gael ein hardal leol yn cael eu gwireddu'n llawn.
Ein gobaith yw darparu profiadau perthnasol a chofiadwy i'r plant er mwyn iddynt fwynhau'r presennol ac, ar yr un pryd, iddynt ddatblygu i fod yn unigolion annibynnol a chytbwys, ac yn ddinasyddion caredig gofalgar.
Yn naturiol, gall y manylion sydd yn y llawlyfr hwn newid, ac fe all newid effeithio ar drefniadau'r ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

Welcome to Puncheston School.

Dear Parents,
It gives us pleasure to present you with our School Prospectus.
Puncheston school is part of a federation. The Federation of Ysgolion Casmael a Llanychllwydog is made up of two separate rural primary schools in the North of Pembrokeshire, Ysgol Casmael and Ysgol Llanychllwydog. The schools share one head teacher and one governing body. The federation strives to ensure that both schools remain separate, retaining their own unique identity, yet belonging to something bigger. The arrangement builds on the strengths of both schools without each of them losing their individual identities.
Our aim as a federation is to provide a safe, stimulating, nurturing learning environment, where individuals reach their full potential; where the Welsh language and culture is celebrated and forms an integral part of daily life; where schools and the communities they serve are fully integrated, and all the opportunities afforded by learning in our local area are fully realised.
Our hope is to provide relevant and memorable experiences for the children so that they will enjoy the present and, at the same time, that they will develop to be independent and balanced individuals, and to be kind caring citizens.
Naturally, the details in this booklet are subject to change, and change may influence arrangements during the school year.

Amanda Lawrence,
Pennaeth/Head Teacher

Math o Ysgol.

Mae Ysgol Casmael yn ysgol wledig naturiol ddwyieithog. Codwyd yr adeilad presennol yn 1953 mewn safle hyfryd gyda golygfeydd panoramig o fynyddoedd y Preseli. Mae'r ysgol yn enwog am hyrwyddo "Cymreictod" yn ei disgyblion, yn ddiwylliannol a ieithyddol, boed y rhieni'n siarad yr iaith ai peidio. Mae ysgol Casmael ynghanol y gymuned, "ysgol bentref" yng ngwir ystyr y gair. Mae'r pentrefwyr yn gefnogol iawn i weithgareddau'r ysgol. Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rhieni a Chyfeillion weithgar iawn sy'n codi swm sylweddol o arian i gynnal a chefnogi'r ysgol.
Mae'r ysgol yn Ysgol Gynradd Sirol gyd-addysgol gyda dalgylch cymharol eang. Yn ogystal â phentref Casmael mae plant yn teithio o Gasfuwch, Casnewydd Bach, Treamlod, Wallis, Wystog, Trecwn, Walton East a Twffton. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer plant o bedair i un ar ddeg mlwydd oed.

Derbyniad

Mae derbyn plant i ysgol yn cael ei reoli gan 'Awdurdod Derbyn'. Yn achos ysgolion Cyngor Sir Penfro, yr Awdurdod Derbyn hwn yw Cyngor Sir Penfro (yr Awdurdod Addysg Lleol neu'r AALl). Ceir ffurflen gais am le i'ch plentyn yn Ysgol Casmael oddi ar wefan https://www.pembrokeshire.gov.uk/school-admissions-online. Wrth lenwi'r ffurflen gais eich plentyn, gofynnir am wybodaeth berthnasol a defnyddiol am eich plentyn. Am ragor o wybodaeth ynglyn â threfn derbyniad cysyllter â'r Pennaeth neu Cyngor Sir Penfro.
Gwahoddir rhieni i gysylltu â'r ysgol i drefnu ymweliad yn ystod oriau gwaith i gyfarfod y Prifathro a'r staff, ac i brofi awyrgylch y gweithle.

Polisi Derbyn Disgyblion

Derbynnir plant i'r ysgol ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pedwerydd penblwydd, ac fel arfer gadawant i fynd i Ysgol Bro Gwaun neu Ysgol Caer Elen, Hwlffordd yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn unarddeg oed. Gwahoddir plant newydd sy'n dechrau yn yr ysgol i ddod i o leiaf un sesiwn ysgol, i'w cytuno ymlaen llaw, yn ystod y tymor cyn i'r plentyn ddod i'r ysgol yn llawn amser.
Mae cludiant ysgol rhad ac am ddim ar gael o ardal Trecwn ac ardal Treamlod.

Nôd yr Ysgol

Nod yr ysgol yw darparu amgylchedd gofalgar, ysgogol ac academaidd sy'n pwysleisio parch a chonsyrn am les eraill, yn seiliedig ar hunanddisgyblaeth a goddefgarwch.
Mae'r ysgol yn gofalu am les personol ei disgyblion yn ogystal â'u cynnydd academaidd.
Cred Ysgol Casmael yn gryf mewn gwerth addysg ddwyieithog ac yn hyn o beth y maent yn gweithredu polisi iaith Cyngor Sir Penfro. Bwriad y polisi dwyieithog hwn yw addysgu disgyblion fel eu bod yn hyddysg yn eu defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg ar ôl gadael yr ysgol gynradd fel eu bod yn gallu cymryd rhan llawn yn y gymuned y maent yn byw ynddi. Mae'r ddarpariaeth yn Ysgol Casmael hefyd yn sicrhau bod pob disgybl yn gwerthfawrogi treftadaeth Cymru.

Yn syml, ein nod yw:

Caredigrwydd,
Cyfrifoldeb,
Cymreictod,
Ceisio Gorau Glas.

Amcanion yr Ysgol

- Cynnig i bob unigolyn gwricwlwm sgiliau sydd yn eang, cytbwys, yn berthnasol i'w hangenion er mwyn iddynt gyflawni eu gwir botensial.
- Creu awyrgylch hapus, ddiogel er mwyn symbylu dysgu effeithiol lle mae'r dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.
- Annog unigolion i fod yn aelodau cyflawn a gwerthfawr o'r gymdeithas.
- Creu perthynas gref rhwng rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned er lles y dysgwyr.
- Paratoi y plant at y cam nesaf yn eu haddysg ac mewn bywyd.
- Creu ymwybyddiaeth gref o Gymreictod a meithrin balchder yn yr iaith.
- Datblygu disgyblion sy'n arddangos hunan-barch a pharch at bopeth o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Sesiynau'r Ysgol

Sesiwn y bore: 9.00 y.b - 12.00 p.m
Sesiwn y prynhawn: 1.00 y.h - 3.15 p.m

Mae'r ysgol yn dechrau am 9.00 a.m gyda chofestru. Rhaid i blant fod yn yr ysgol rhwng 8.45 a 9.00 y.b (dim hwyrach). Gofynnir i rieni ofalu fod y plant yn cyrraedd yn brydlon ar bob achlysur.
Sylwer y gall staff fod yn yr ysgol yn gynt nac amserau dechrau'r disgyblion, ond nad ydynt yn gallu bod yn gyfrifol am ddiogelwch y plant.
Mae'r amser cyswllt yn yr ysgol yn lleiafswm o 21 awr ar gyfer y Babanod a 23.5 awr ar gyfer Plant Iau. Nid yw hyn yn cynnwys addoli, cinio, cofrestru, ac egwylion eraill. Mae'r plant yn gorffen gweithio am 3.15 p.m ac fe gânt fynd allan cyn gynted ag y bo modd wedi hynny. Mae disgwyl i rieni ddod o fewn pellter trosglwyddo'r plentyn i gatiau'r ysgol.

Clwb Brecwast

Rhoddir cynnig i holl ddisgyblion yr ysgol i gofrestri fel aelodau o glwb brecwast yr ysgol. Darperir goruchwyliaeth o 8.15 y bore tan 8.45. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

Presenoldeb

Lefel gyfartalog presenoldeb yr Ysgol cyn Covid-19 oedd rhwng 96% a 97%. Rydym yn gweithio'n galed i godi presenoldeb nol i'r lefelau uchel yma. Gweler y polisi Presenoldeb yn yr atodiad.

Gofal Bugeiliol

Y pennaeth sy'n gyfrifol yn gyffredinnol am yr ysgol, ond mae gofal pob plentyn yn dibynnu ar gydweithrediad agos holl aelodau'r staff wrth ofalu am y disgyblion. Mae'r ysgol yn cadw cofnod o rifau ffôn, yn gartref a gwaith, rhieni, ac os y digwydd damwain sy'n golygu fod angen sylw meddygol ar y plentyn, gwneir pob ymdrech i gysylltu â'r rhieni. Pe na bai hynny'n bosib, eir â'r plentyn i'r Adran Ddamweiniau yn Ysbyty Llwynhelyg. Mae felly'n bwysig iawn fod yr ysgol yn cael gwybod am unrhyw newid mewn cyfeiriad neu rif ffôn. Bydd staff yn delio ag unrhyw fân ddamweiniau.

Ar bob diwrnod ysgol mae aelod o'r staff ar ddyletswydd bymtheg munud cyn cychwyn diwrnod yr ysgol, a'r un cyfnod o amser ar ddiwedd diwrnod yr ysgol. Mae aelod o'r staff wastad ar ddyletswydd adeg pob egwyl. Yn ystod yr awr ginio gwneir y gwaith goruchwylio gan y goruchwylwyr awr ginio. Ar ddiwedd diwrnod yr ysgol caiff disgyblion eu tywys at y drysau gan aelod o'r staff a fydd yn trosglwyddo'r plant yn ddiogel i'w rhieni. Rhaid i'r ysgol gael gwybod pan y gwnaed trefniadau i gynrychiolydd, ar ran rhiant, i gasglu plentyn. Os yw'r ysgol yn gorfod cau'n gynnar oherwydd tywydd garw, cymerir camau i wahodd rhieni i gasglu disgyblion, neu i drefnu eu bod yn cael eu cludo gartref yn ddiogel neu yng ngofal person a enwyd gan y rhieni yn gyswllt brys.
Os yw plentyn yn absennol o'r ysgol mae galwad ffôn neu nodyn o esboniad yn hanfodol pan y daw'r plentyn yn ôl i'r ysgol. Rhaid i'r athro/thrawes dosbarth gael gwybod os oes angen cymryd plentyn allan cyn diwedd diwrnod y ysgol oherwydd apwyntiadau deintyddol, meddygol ac ati.

Materion personol a chymdeithasol

Bydd y staff yn rhoi gwybod i chi os ydynt yn teimlo fod eich plentyn yn cael problemau yn yr Ysgol neu os ydynt yn credu fod eich plentyn yn creu problem yn yr Ysgol. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'r staff dysgu am unrhyw broblem gymdeithasol neu feddygol sy'n effeithio eich plentyn. Cofiwch fod pob croeso i chi gysylltu â'r staff gan fod modd datrys y rhan fwyaf o broblemau trwy eu trafod, gan ein galluogi i gymryd y camau priodol.

Salwch a Meddyginiaethau

Dylai unrhyw blentyn sy'n amlwg yn afiach gael ei g/chadw gartref. Rhaid cysylltu â'r Pennaeth os ydych am i'ch plentyn gael unrhyw feddyginiaethau yn ystod oriau ysgol, a dylai pob meddgyiniaeth gael eu trosglwyddo trwy law oedolyn, gyda chyfarwyddiadau clir, ysgrifenedig. Ni roddir unrhyw feddyginiaethau i unrhyw blentyn nad ydynt wedi cael eu cyflwyno gan feddyg. Ni fydd yr ysgol yn gyfrifol am weinyddu unrhyw feddyginiaethau. Dylai plant sy'n defnyddio anadlwyr 'asthma' ddarparu set sbâr i'r ysgol. Rhoddir ffurflen i bob rhiant adeg derbyn eu plentyn yn holi am iechyd eu plentyn, ac os yw cyflwr meddygol y plentyn yn newid ar unrhyw adeg dylid rhoi gwybod i aelod o'r staff.
Os oes gan eich plentyn glefyd heintus bydd yr Ysgol yn cadw at restr canllawiau'r Awdurdod Iechyd lleol ar reoli heintiau. Mae honno weithiau'n gwrthdaro â chyngor y meddyg. Mae'n hollbwysig eich bod yn rhoi gwybod i'r Pennaeth am unrhyw alergeddau sydd gan eich plentyn.

Disgyblaeth

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am ddisgyblaeth yn yr Ysgol. Fodd bynnag, mae'n fater sy'n ymwneud â phawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol, gan gynnwys rhieni. Gobeithiwn y byddai rhieni yn cefnogi athrawon mewn unrhyw fater disgyblu. Caiff y plant eu hannog i ddatblygu ymdeimlad o hunan-ddisgyblaeth, ac i ddangos parch tuag at bobl eraill a'u heiddo. Bydd pob cosb a weinyddir oherwydd camymddwyn yn rhesymol a chymhedrol, o'r math y byddai rhiant yn ei ddisgwyl i blentyn ei gael os yw'n camymddwyn. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae ymddygiad ein disgyblion yn rhagorol.
Caiff rheolau'r ysgol eu trafod gyda'r plant a chaiff yr angen amdanynt eu hesbonio.
Rheolau penodol:
1. Ni ddylai unrhyw ddisgybl adael tir yr ysgol heb ganiatâd aelod o'r staff.
2. Ni chaniateir seiclo na sglefrfyrddio yn y maes chwarae. Nid yw seiclo ond yn cael ei ganiatau adeg gwersi seiclo.
3. Rhaid i bob darn o ddillad gael eu marcio'n glir gydag enw'r plentyn.
4. Ni chaniateir gwisgo gemwaith gormodol.
5. Ni ddylid dod ag eiddo gwerthfawr i'r ysgol.
6. Dylid cyflwyno arian i'r athro/athrawes dosbarth i'w gadw'n ddiogel.
7. Yn ystod tywydd garw caiff y disgyblion eu cadw dan do.
8. Rhaid dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.
9. Ni dderbynnir iaith anweddus.

10. Dylai ymddangosiad a gwisg fod yn lân a thaclus.
11. Nid yw teganau yn cael eu hannog oherwydd y perygl y gallent gael eu torri neu eu colli.
12. Rhaid gofalu am eiddo'r ysgol.
13. Ni chaniateir i unrhyw bersonau anawdurdodedig ddod i mewn i adeiladau a thir yr ysgol y tu allan i oriau ysgol.

Yn ogystal a'r 4C, mae plant hefyd yn cael eu hannog i gadw at y Gwerthoedd yr ysgol:

- **Gofalgarwch**
- **Cydweithrediad**
- **Dewrder**
- **Rhyddid**
- **Cyfeillgarwch**
- **Hapusrwydd**
- **Gonestrwydd**
- **Gobaith**
- **Gwyleidd-dra**
- **Cariad**
- **Gwerthfawrogiad**
- **Amynedd**
- **Heddwch**
- **Ansawdd**
- **Parch**
- **Cyfrifoldeb**
- **Diniweidrwydd**
- **Meddylgarwch**
- **Goddefgarwch**
- **Ymddiriedaeth**
- **Dealltwriaeth**
- **Undod**

Rhoddir canmoliaeth i'r plant hynny sy'n mynd allan o'u ffordd i gadw at y rheolau hyn; mae plant hefyd yn cael eu gwobrwyo mewn ffyrdd eraill fel tocynnau canmoliaeth neu gasglu pwyntiau grwp am waith da, defnyddio menter i ddysgu mwy am fater arbennig ac ati.

Atal Bwlio

Mae'r ysgol yn ystyried Atal Bwlio fel achos o gonsyrn. Mae'r ysgol yn ymwybodol o ddigwyddiadau yn yr ysgol ac nid yw'n goddef unrhyw achos o fwlio. Bydd yr ysgol yn trafod bwlio fel rhan o Addysg Bersonol a Chymdeithasol gyda'r disgyblion. Fel gydag unrhyw fater mae'r Pennaeth a'r staff yn barod bob amser i drafod unrhyw gonsyrn am fwlio.

Gwisg Ysgol

Mae gwisg swyddogol yr ysgol yn rhoi cyfle i'n disgyblion fod yn falch o'u hysgol, teimlo eu bod yn perthyn iddi a bod yn barod i gynnal safonau uchel o ymddygiad. Gellir prynu'r wisg oddi wrth staff yr ysgol. Mae'r gwisg yn cynnwys:
Blows/crys gwyn, crys polo coch/gwyn; sgert neu pinaffor lwyd/du neu trowser du/llwyd; crys chwys coch, siwmpyr neu gardigan coch
Bydd hefyd angen dillad addas ar gyfer Gemau, Addysg Gorfforol a Nofio. Nid yw newid esgidiau yn ddigon ar gyfer Addysg Gorfforol ac mae hetiau yn orfodol ar gyfer nofio.
Dylai pob darn o ddillad gael eu labelu'n glir.

Cwricwlwm

Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 yn ceisio caniatáu ar gyfer ehangu'r dysgu, gan gefnogi lleoliadau ac ysgolion i fod yn fwy hyblyg o ran eu dulliau gweithredu, ac yn darparu mwy o asiantaeth i arweinwyr addysg ac ymarferwyr, ac felly eu galluogi i fod yn arloesol a chreadigol.

Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 yn trefnu dysgu o gwmpas chwe maes dysgu a phrofiad sef:

Celfyddydau Mynegiannol
Dyniaethau
Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Iechyd a Lles
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
Mathemateg a Rhifedd.

Mae pedwar diben y cwricwlwm, fel yr amlinellir yn **Dyfodol Llwyddiannus**, wedi bod yn sail i'r holl waith o gynllunio a datblygu Cwricwlwm i Gymru 2022. Dyma'r man cychwyn ar gyfer pob penderfyniad am Gwricwlwm i Gymru 2022 a dylid dylunio a llywio cwricwla ar lefel ysgol yn unol â'r pedwar diben hwn. Mae 'cwricwlwm' yn cynnwys yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu a gynlluniwyd er mwyn cyflawni pedwar diben y cwricwlwm, sef datblygu plant a phobl ifanc i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 wedi'i gynllunio i helpu pob dysgwr i wireddu'r pedwar diben hwn. Mae pob diben yn fwy na phennawd; fe'u disgrifir hefyd yn nhermau nodweddion allweddol. Dylent, yn eu cyfanrwydd, fod yn sail i'r holl addysgu a dysgu yng Nghymru

Mae pob plentyn yn cael eu monitro'n rheolaidd yng nghyd-destun eu datblygiad addysgiadol, gan gynnwys eu sgiliau Rhifedd a Llythrennedd, cofnodir y wybodaeth yma ar system electronig o'r enw Building Blocks. Ar hyn o bryd mae'r plant yn cael Asesiad Gwaelodlin adeg eu derbyn i'r ysgol. Cynhelir Profion Cenedlaethol Darllen Cymraeg a Saesneg, Rhifedd a Rhesymu yn flynyddol o flwyddyn 2 i flwyddyn 6. Cynhelir asesiadau rheolaidd eraill ar sillafu, darllen a mathemateg. Mae'r athrawon yn gyson yn monitro cynnydd y plant ac fe fyddant yn gwybod os yw, neu os nad yw, eich plentyn yn cyflawni.

Addysg Gorfforol

Nôd
Datblygu cryfder, rheolaeth a chreadigedd y plant drwy eu hannog i fod yn gorfforol weithgar.
Amcanion
Cynhelir dwy wers addysg gorfforol yr wythnos.
Bydd y plant yn dilyn unedau gwaith sy'n cynnwys gymnasteg, dawns, nofio a gemau.
Canllawiau

- Disgwylir i bob plentyn newid i wisg addas ar gyfer addysg gorfforol, yn drowsus bach, crys T a trenyrs neu bympiau.
- Er mwyn diogelwch ni chaniateir gwisgo modrwyau, clustdlysau nac oriawr mewn unrhyw wers addysg gorfforol,
- Gofynnir yn garedig i'r rhieni hysbysu'r ysgol os oes unrhyw rheswm meddygol pan na all plentyn gymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol,
- Ystyrir Chwaraeon yn rhan annatod o weithgareddau Cwricwlaidd ac allgyrsiol yr ysgol.

- Caiff Chwaraeon eu cynnwys fel rhan benodol o'r Cynllun a'r Gweithgareddau Addysg Gorfforol (Cwricwlwm Ffurfiol).
- Yn allgyrsiol, cynnigir amrywiaeth o glybiau ar gyfer disgyblion CA2 yn ystod ac ar ol oriau ysgol – mae'r rhain yn cynnwys, rygbi, peldroed, tennis, pelrwyd, dawns a ffitrwydd

Nofio

Bydd pob disgybl Blwyddyn 1-6 yn cael gwersi nofio ym mhwll nofio Ysgol Bro Gwaun. Mae angen capiau nofio.

Cyfleoedd Cyfartal

Ymhob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol cynigiwn gyfleoedd cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm i bob plentyn. Adolygwn ein harferion yn rheolaidd.

Trefniadaeth a dulliau dysgu

Trefnir yr ysgol mewn pedwar dosbarth, yn seiliedig ar oedrannau gallu cymysg. Caiff pob plentyn y cyfle i weithio gyda phlant o'r un oed â nhw'u hunain, plant sy'n hyn, a chyda grwpiau oed cymysg. Rhoddir sylw gofalus i grwpio plant yn y dosbarth ac mae gwahaniaethu gwaith yn flaenoriaeth.
Dysgir y Cwricwlwm yn bennaf trwy ddulliau ysgol gyfan, traws gwricwlaidd, thematig. Er hynny, mae'n rhaid dysgu rhai meysydd yn bynciol a thu allan i'r thema.
Bydd plant sy'n cael anhawster arbennig gyda'u haddysg, neu sy'n dangos gallu anghyffredin mewn maes arbennig o'r cwricwlwm yn cael y sylw angnrheidiol, wedi ymgynghori â'r rhieni.
Dysgir Addysg Grefyddol a Gwerthoedd ar sail Cristogaeth fel rhan o'r gwaith thematig. Y nod yw helpu disgyblion i ddeall natur ein crefydd a chrefyddau cymunedau eraill yn y byd, ac i ddatblygu gwerthoedd cymdeithasol a moesol.
Nid oes hawl gan rieni i ofyn am dynnu eu plant allan o wersi a Addysg Grefyddol a Gwerthoedd. Cynhelir gwasanaethau crefyddol bob dydd, pan yr anogir y plant i gymryd rhan, ynghyd ag aelodau o'r staff, ymwelwyr a llywodraethwyr.
Mae'r gweinidogion lleol a ficer y plwyf yn arwain gwaanaethau'n rheolaidd.

Anghenion Addysgol Ychwanegol

Mae'r staff yn adolygu cynnydd y plant yn rheolaidd, a phan yn briodol, fe drefnir cymorth gan fudiadau allanol ac fe ddarperir cymorth athro anghenion addysgol ychwanegol. Mae'r ysgol yn cadw at argymhellion y Côd Ymarfer newydd ar gyfer Anghenion Addysgol Ychwanegol (Medi 2021).
Mae'n gyfrifoldeb ar bob ysgol dan Ddeddf Addysg 1993 i ganfod disgyblion sydd ag anghenion addysg a sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol ar eu cyfer.

Amcanion

· adnabod yn gynnar y plentyn sydd ag anawsterau
· sicrhau y bydd darpariaeth angenrheidiol ar gyfer y plentyn
· ceisio sicrhau cefnogaeth a phartneriaeth weithio â rhieni
· ceisio sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth asiantaethau allanol
· mewn eithriadau, rhoi sylw ac arweniad i blentyn sydd yn arbennig o alluog

Canllawiau

Mae gan yr ysgol hon athrawes wedi ei chymhwyso i ddysgu plant ag anghenion addysgu ychwanegol.
Mae cydweithio agos rhwng yr athro AAY ac athrawon dosbarth.

Mae'r athrawes AAY yn dilyn y drefn statudol wrth gyfeirio plentyn.
Mae cysylltiad agos rhwng yr ysgol a'r Gwasanaeth AAY yn yr Awdurdod

Ymateb i Ofynion Deddf Anabledd

Mae awdurdodau addysg lleol wedi darparu hyfforddiant i ysgolion i'w helpu i baratoi cynlluniau a deall goblygiadau dyletswyddau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Mae rhan fwyaf yr ysgolion wedi defnyddio'r wybodaeth gynhwysfawr o archwiliad hygyrchedd eu hawdurdod lleol fel sail i'w cynlluniau.
Cyfrifoldeb yr ysgol:
· lunio cynllun gweithredu o'r hyn sy'n ofynnol er mwyn gwneud gwelliannau a chynyddu hygyrchedd yr ysgol;
· gwneud darpariaeth addas i gynorthwyo dysgwyr anabl a'u rhieni i gyfranogi mewn cyfarfodydd cynllunio unigol;
· rhoi ystyriaeth dda i anghenion unigol disgyblion anabl wrth gynllunio'r cwricwlwm;
· sicrhau bod pob aelod o staff, gan gynnwys staff cymorth, yn cael cymorth a hyfforddiant priodol i wella'u haddysgu a'u cymorth i ddisgyblion anabl;
· gweithio gydag ysgolion arbennig i ddatblygu'r cwricwlwm a'r addysgu;
· dewis mannau cyfarfod ar gyfer ymweliadau ag ysgolion sy'n hygyrch i bob disgybl er mwyn gwneud yn siwr nad oes gwahaniaethu'n digwydd yn erbyn unrhyw ddisgybl; a
· rhannu gwybodaeth asesu risg gydag ysgolion eraill am fannau cyfarfod hygyrch ar gyfer ymweliadau.
Mae modd derbyn copi o Gynllun Gweithredu'r ysgol trwy gysylltu â'r Pennaeth.

IECHYD A DIOGELWCH

Pennaeth
Y Pennaeth s'yn gyfrifol am reolaeth Iechyd a Diogelwch.
Mae'r cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys ….

- Annog agwedd bositif at Iechyd a Diogelwch o fewn yr ysgol.
- Diogelwch yr adeilad ac adnoddau.
- Cynnig gwybodaeth i'r gweithlu ar iechyd a diogelwch yn ogystal â llês.
- Goruchwylio'r gweithlu i sicrhau fod ganddynt amgylchfyd ddiogel i weithio ynddi.
- Goruchwylio ymwelwyr.
- Trafod gyda'r gweithlu cyn cyflwyno unrhyw newidiadau all effeithio ar Iechyd a Diogelwch.
- Sicrhau fod goruchwyliaeth ddigonol ar gael ar gyfer gweithgareddau allanol.
- Sicrhau fod damweiniau a pheryglon yn cael eu recordio.
- Trefnu hyfforddiant i'r gweithlu.

Athrawon dosbarth
Mae'r cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch yr athrawon dosbarth yn cynnwys ….

- Goruchwylio'r plant a chymryd camau rhesymol am eu Iechyd a'u Gofal.
- Rhoi cyfarwyddiadau clir pan fo angen.
- Dangos esiampl dda wrth ymgymryd â Iechyd a Diogelwch.
- Cynnig cymorth i'r Pennaeth ynglŷn â gwelliannau ar faterion o ddiogelwch.
- Gwneir Asesiadau Risg cyn unrhyw ymweliad addysgol gan ddefnyddio system y Sir

Bwrdd Llywodraethol
Bwrdd Llywodraethol yr ysgol sy'n gyfrifol am iechyd, diogelwch a materion llês o fewn yr ysgol.

Diogleu Plant.
Y Pennaeth, Mrs. George a Mrs. Phillips sydd yn gyfrifol am faterion diogelu plant. Bydd gweddill y gweithlu yn nodi pryderon gyda hwy.

Defnydd o'r Iaith Gymraeg

Fel rhan o bolisi iaith yr Awdurdod mae'r ysgol wedi cael ei dynodi'n ysgol Addysg Cymraeg sy'n perthyn i ardal draddodiadol Gymraeg. Ein nod yw y daw disgyblion yn ddwyieithog erbyn iddynt gyrraedd 11 oed. Y Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith plant y Gyfnod Sylfaen, tra y dysgir y Plant Iau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Cyflwynir Saesneg yn bwnc i blant blwyddyn dau yn y tymor cyn iddynt symud i fyny i flwyddyn tri.
Mae staff yn sensitif i blant sy'n symud i mewn i'r ardal heb iddynt allu siarad unrhyw Gymraeg.

Polisi Gwaith Cartref

Canllawiau
Y mae trefn yn yr ysgol ar gyfer gosod gwaith cartref. Nid yw'n fwriad i lethu plant â gormod o waith a bydd digon o amser ganddynt i gwblhau'r tasgau. Anogir y plant i beidio a gadael gwaith cartref tan y funud olaf ac i barchu safon eu gwaith.
Rydym yn gweld gwerth gwaith cartref. Yr ydym yn sensitif i amgylchiadau pan nad yw'r plentyn wedi gallu gwneud ei waith mewn pryd.
Er mwyn sicrhau gwell safonau mewn llythrennedd a rhifedd, credir bod gosod gwaith cartref yn codi disgwyliadau'r plant a rhieni ac yn sicrhau bod y ddolen rhwng yr ysgol a'r cartref yn cael ei hatgyfnerthu
Mae gwaith cartref, a roddir yn ôl doethineb yr athro/athrawes dosbarth, yn cael ei ystyried yn bwysig iawn gan ei fod yn atgyfnerthu'r hyn a ddysgir yn yr ystafell ddosbarth. Mae cefnogaeth rhieni yn hanfodol er mwyn sicrhau fod gwaith catref yn cael ei orffen mewn pryd a'i gyflwyno'n daclus. Efallai y bydd disgyblion Blwyddyn 2 yn cael gwaith cartref dros y Sul, gall disgyblion Blwyddyn 3 a 4 ddisgwyl gwaith cartref unwaith yr wythnos, tra y gall disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ddisgwyl gwaith cartref o leiaf ddwywaith yr wythnos. Mae disgwyl i bob plentyn ddarllen gartref yn rheolaidd. Rhoddir llyfryn Cofnod Darllen i bob darllenydd a gofynnir i rieni helpu i wneud yn siwr ei fod yn cael ei lenwi'n iawn.

Cytundeb Cartref ac Ysgol.

Y mae gennym ofal am bob agwedd ar ddatblygiad eich plant. Ein nod ydi sicrhau yr addysg orau un ar eu cyfer fel y bydd pob plentyn yn cyrraedd ei benllanw personol ei hun. Rydym am i'r plant fod yn hapus, yn garedig ac yn ffyddlon i'w gilydd. Gobeithiwn y byddant yn mwynhau nifer mawr o brofiadau cyfoethog a gwerthfawr yn Ysgol Casmael.
Y mae gan y rhieni ran bwysig iawn yn addysg eu plant, ac mae Ysgol Casmael yn croesawu pob cydweithrediad rhwng y cartref a'r ysgol.
Mae Ysgol Casmael wedi ffurfio cytundeb rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r cytundeb yn golygu bod y disgybl a'i gartref a'r ysgol yn cytuno i gydweithredu er mwyn sicrhau y cyfleoedd gorau un ar gyfer datblygiad ac addysg y plentyn. Bydd y cytundeb yn cael ei gyflwyno i chi pan fydd eich plentyn yn dechrau yn yr ysgol.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Yn unol â'r Cwricwlwm newydd i Gymru, mae'r cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd bellach yn orfodol ac yn cael ei addysgu'n benodol ac ar draws y cwricwlwm. Mae'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol hwn yn

cefnogi ysgolion i ddylunio eu ACRh. Mae'r cynnwys wedi'i osod o fewn cyd-destun llinynnau dysgu eang a chydgysylltiedig, sef:
· perthnasoedd a hunaniaeth
· iechyd a lles rhywiol
· grymuso, diogelwch a pharch.
Mae'r llinynnau hyn yn galluogi ymarferwyr i ddylunio a datblygu cwricwlwm wedi'i deilwra i'w dysgwyr, gan wneud cysylltiadau a datblygu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu ar draws y cwricwlwm

Gweithgareddau Allgyrsiol

Cynhelir digwyddiadau ysgol fel cyngherddau, ymweliadau, digwyddiadau codi arian ar wahanol adegau ac fe roddir sylw ymlaen llaw amdanynt i'r rhieni. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag ysgolion eraill yn y cylch ar gyfer digwyddiadau fel athletau, pêl droed, criced, rownderi a nofio, yn ogystal â Cherddorfa'r Ysgolion Iau. Mae'r ysgol hefyd yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau'r Urdd fel pêl rwyd, pêl droed, rygbi, Eisteddfod, ac ymweliadau â'r Ganolfan Weithgareddau yn Llangrannog a Chanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd.
Mae disgyblion sy'n cyrraedd safon ddigon uchel yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn digwyddiadau fel traws gwlad, pêl droed a rygbi. Cynhelir profion medrusrwydd seiclo yn yr ysgol ar gyfer y disgyblion hyn. Mae'r ysgol wastad yn ceisio cymryd rhan mewn llu o gystadlaethau llenyddol a chelfyddydol. Cynhelir amrywiaeth o glybiau ar ol ysgol yn ystod y flwyddyn.

Teithiau Ysgol

Mae slipiau caniatâd yn cael eu dosbarthu ar ddechrau pob blwyddyn academaidd er mwyn ein galluogi i fynd â'r plant allan o'r ysgol ar wahanol deithiau. Mae rhieni wastad yn cael gwybod pan y cynhelir taith o'r fath e.e ymweliad addysgol, gêm bêl droed a pha fath o gludiant fydd yn cael ei ddefnyddio. Mae ceir yr holl athrawon a'r Cynorthwywyr Dysgu a ddefnyddir i gludo plant wedi cael eu hyswirio ar gyfer gwneud hynny.
Mae'r holl blant yn cael eu hyswirio ar gyfer teithiau ac ymweliadau trwy bolisi a drefnir gan yr awdurdod. Mae'r Awdurdod Addysg hefyd yn cael gwybod am y teithiau ac yn cadw manylion amdanynt yn Neuadd y Sir.

Polisi Codi Tâl

Ni chodir unrhyw dâl am wersi offerynnol. Codir tâl am lety a phrydau bwyd ar gyrsiau preswyl. Efallai y gofynnir i rieni am gyfraniad gwirfoddol i dalu am rai gweithgareddau awyr agored, cyrsiau ac ymweliadau.

Prydau Bwyd Ysgol a Llaeth

Gellir dod o hyd i wybodaeth am brydau Ysgol ar wefan Sir Benfro
https://www.pembrokeshire.gov.uk/school-meals/school-menus. Mae prydau Ysgol nawr am ddim i bob disgybl.
Mae pob disgybl yn cael eu goruchwylio tra'u bod yn bwyta'u cinio. Gall disgyblion ddod â diodydd gyda nhw, ond nid mewn cynhwysydd gwydr.
Rydym yn "Ysgol Hybu Iechyd", ac mae llaeth ar gael yn rhad ac am ddim i holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen bob bore. Mae byrbrydau iachus yn unig yn cael eu caniatau adeg yr egwyl chwarae.
Rydym hefyd yn ceisio annog y plant i feddwl yn iachus amser cinio ac maent yn aml yn trafod pa mor bwysig yw cael deiet cytbwys, yn enwedig os ydych yn dod â'ch cinio gyda chi i'r ysgol.

Gwasanaethau Ategol

Mae'r ysgol yn cael ymweliad rheolaidd gan Nyrs yr Ysgol. Mae rhieni'n cael gwybod am yr ymweliadau hynny a gallant ddod i'r ysgol os y mynnant. Mae gennym hefyd gysylltiadau agos â'r Gwasanaethau Brys, sy'n ymweld â'r ysgol bob hyn a

hyn.

Cysylltiadau a Rhieni

Gwahoddir rhieni i'r ysgol i drafod gyda'r Pennaeth a'r staff dysgu unrhyw ymholiadau sydd ganddynt ynghylch cynnydd eu plentyn. Mae sesiynau ymgynghori â rhieni yn cael eu trefnu pob tymor. Mae adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu dosbarthu yn ystod Tymor yr Haf. Mae rhieni'n cael gwybodaeth reolaidd am holl weithgareddau'r ysgol trwy gylchlythyron sy'n cael eu danfon gartref gyda'r plant, ac mae felly'n bwysig fod rhieni'n edrych drwy fag eu plentyn yn rheolaidd.
Gofynnir i rieni plant sy'n symud i'r ardal ac sy'n ystyried danfon eu plant i'r ysgol gysylltu â'r Pennaeth i drefnu ymweliad. Mae rhieni'n aml yn cael eu gwahodd i ddigwyddiadau a gynhelir yn yr ysgol ar adegau arbennig a gwneir pob ymdrech i wahodd plant cyn oed ysgol pryd bynnag y mae hynny'n bosib.

Rhieni a Ffrindiau Ysgol Casmael

Sefydlwyd y gymdeithas hon yn bennaf i gefnogi'r ysgol trwy godi arian i brynu adnoddau ychwanegol a nodwyd gan y Pennaeth, ac i ddarparu arian ar gyfer ymweliadau ysgol ac adegau arbennig. Mae Rhieni a Chyfeillion yn cynorthwyo'r ysgol mewn sawl ffordd arall ee garddio, cludo plant a hyfforddiant chwaraeon..

Cwynion

Ein nod yw delio â phob cwyn yn foddhaol trwy eu trafod gyda rhieni. Fodd bynnag, os nad yw hynny'n bosib, bydd y Pennaeth yn awgrymu y dylai'r achwynwr ysgrifennu at y Rhiant Lywodraethwr, Cadeirydd y Llywodraethwyr, neu'r Swyddfa Addysg yn Hwlffordd.

Helpwch ni trwy…….

- Ffonio'r Ysgol cyn 9.15y.b os yw eich plentyn yn absennol – mae hwyr-ddyfodiaid yn cael eu cofnodi'n absennol.
- Os yw eich plentyn yn mynd gartref gyda pherson gwahanol i'r un arferol rhowch wybod inni.
- Nid yw gwyliau adeg tymhorau'r Ysgol yn cael eu cymeradwyo gan yr Awsurdod Addysg na'r Llywodraeth. Gweler yr atodiad am gyngor pellach am absenoldeb eich plentyn.
- Gwnewch yn siwr fod gennym yr holl rifau ffôn diweddaraf rhag ofn y bydd argyfwng, mae ein data'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn, ond os, er enghraifft, eich bod yn newid eich ffôn symudol, cofiwch roi gwybod inni.

Polisi Cynnal Ymddygiad

"Mae Ysgol Casmael yn mynnu ymddygiad o safon uchel gan bob disgybl."

Cyflwyniad

Mae sicrhau ymddygiad ac agwedd briodol yn gyfrifoldeb ar bawb.
Yn unol â datganiad y Corff Llywodraethol o egwyddorion cyffredinol ynglyn a chynnal ymddygiad, ac i gyd fynd ag amcanion cyffredinol yr ysgol byddwn yn:-

· Ceisio creu ethos fydd yn sicrhau amgylchfyd ac awyrgylch hapus a threfnus lle gall pob unigolyn ddatblygu i'w botensial llawn.
· Sefydlu trefn bendant i gynnal ymddygiad yn seiliedig ar gyd berthynas o barch rhwng pawb o fewn y sefydliad.
· Llunio systemau a fydd yn ymgyrraedd tuag at ddatblygu hunan ddisgyblaeth ac yn ymateb i ymddygiad amhriodol

Nod

· Meithrin a chreu ymdeimlad o hunan-barch a hunan ddisgyblaeth yn y plant.
· Gweithredu ac ymateb i achosion camymddwyn, yn gyson a theg drwy'r ysgol.
· Meithrin ac atgyfnerthu cydweithrediad a chysondeb rhwng y cartref, rhieni ac athrawon ysgol.

Amcanion

· Mynnu ymddygiad priodol bob amser.
· Gwahaniaethu rhwng ymddygiad drwg ac ymddygiad direidus.
· Meithrin ac atgyfnerthu parch tuag at gyfoedion, oedolion ac eiddo.
· Mynnu bod unigolion yn derbyn cyfrifoldeb am eu hymddygiad a chanlyniad eu gweithredoedd.

Canllawiau Cyffredinol

· Creu awyrgylch hapus a chartrefol o fewn yr ysgol a'r dosbarthiadau.
· Sicrhau gosod rheolau teg a chyson drwy'r ysgol.
· Sicrhau trefn a disgyblaeth wrth i ddisgyblion adael a mynd i ddosbarthiadau a mannau eraill o gwmpas yr ysgol.
· Dylid rhoi pwyslais ar y cadarnhaol drwy annog a chanmol, yn hytrach na cheryddu.
· Dylid beirniadu ymddygiad y plentyn ac nid y plentyn ei hun.
· Dylid ceisio ymresymu yn hytrach nag arthio, gan amlygu'r broblem a thrafod yr oblygiadau/canlyniadau.
· Dylid ceisio cael y plentyn i ymddiheuro pan fo'n briodol.
· Dylid cofnodi achosion o ymddygiad drwg fel tystiolaeth ar gyfer camau eraill.
· Sicrhau bod pob disgybl yn ymwybodol o reolau'r ysgol a'r rheswm dros eu bodolaeth.

Type of School.

Puncheston School is a naturally bilingual, rural primary (Infant and Junior) school. The present building was erected in 1953 in a delightful location with panoramic views of the Preseli mountains. The school is renowned for fostering that "Welshness" in its pupils, both culturally and linguistically, whether parents are able to speak the language or not. Puncheston school is at the heart of the community, a true "village school", Villagers are very supportive towards the school, the school has a very active Parents and Friends Association which raises a substantial amount of money to support the school each year.

The school is a co-educational County Primary School, providing education for pupils aged 4 to 11 years old. The catchment area is comparatively wide. As well as Puncheston itself pupils come from Little Newcastle, Ambleston, Wallis, Woodstock, Walton East, Trecwn and Tufton.

Admissions

The admission of children to school is controlled by an 'Admissions Authority'. In the case of Pembrokeshire County Council schools this Admissions Authority is Pembrokeshire County Council (the Local Education Authority or LEA).

All requests for admission to school are via the Admissions Officer, Pembrokeshire County Council at https://www.pembrokeshire.gov.uk/school-admissions-online

When completing their child's admission forms, parents are asked to include any relevant and helpful information regarding their child. For further information regarding Admissions procedures please contact the headteacher or Pembrokeshire County Council.

Parents of prospective pupils are invited to contact the school to arrange a visit during school hours, not only to meet with the Headteacher and staff, but also to sample the working atmosphere of the school.

Admissions Policy

Children are admitted to school at the commencement of the term following their fourth birthday, and normally leave to attend Ysgol Bro Gwaun or Ysgol Caer Elen in September following their eleventh birthday. Children must have attained the age in question by 1st September, 1st January or 1st April in the relevant year. New children starting school are invited to attend at least one school session, mutually arranged beforehand, during the term prior to the child's admittance.

Free school transport is available from the areas of Trecwn and Ambleston.

School Aims

The school aims to provide a caring, stimulating and academically productive environment which emphasises respect and concern for the welfare of others, based upon self-discipline and tolerance.

The school is concerned with the personal well-being of its pupils as well as their academic progress.

Puncheston School asserts its belief in the educational value of acquiring two languages and implements the Pembrokeshire County Council Language policy. The aim of this bilingual policy is to educate pupils so that they are proficient in the use of both Welsh and English on leaving the primary school in order that they may participate fully in the community of which they are a part. The provision made in Puncheston School also ensures that every pupil has an appreciation of the cultural heritage of Wales.

The Schools main aims are:
a) To develop each individual child emotionally and socially so that they will realise their full potential.
b) To create an awareness of and desire for the spiritual dimensions of life.
c) To encourage each child to become a responsible member of a bilingual community so that they may contribute to it and also gain from it.
d)To instil a sense of moral values and to foster an awareness of the needs of others.
e) To develop sensitivity, aesthetic appreciation, and leisure skills in each child.
f) To foster skills and knowledge by encouraging each child to develop a lively and enquiring mind.

MISSION STATEMENT

The 4 Cs of Puncheston School are .

Caredigrwydd,
Cyfrifoldeb,
Cymreictod,
Ceisio Gorau Glas.

(Try to be Kind, be Responsible, Be proud of being Welsh and Try your very best)

SCHOOL SESSIONS

Morning session:	9.00 a.m - 12.00 p.m
Afternoon session	1.00 p.m - 3.15 p.m

School commences at 9.00 a.m with registration. Children are to be in school between 8.45 and 9.00 a.m (no later). Parents are asked to ensure that the children are punctual at all times.
Please note that staff may be on the premises earlier than the pupils' start times, but they are unable to accept responsibility for the children's safety. Teaching contact time at school is a minimum of 21hrs for foundation Phase and 23.5hrs for Key Stage 2. This excludes collective worship, lunch, registration, and other breaks.
The children put down their pens at 3.15 p.m and are released as soon as possible after that time. Parents are expected to come within handing-over distance of the school gates.

Breakfast Club

All pupils are able to register as members of the breakfast club. Supervision is provided from 8.15a.m until 8.45a.m. This is a free service.

Attendance

Prior to the Covid 19 pandemic, the average attendance was between 96% and 97%. Strategies are currently in place

to return to this level of attendance. Please refer to the Attendance policy in the Appendix

Pastoral Care

The head teacher has overall responsibility for the school, but depends on the close co-operation of all members of staff in caring for the pupils.

The school keeps a Data Protection compliant record of telephone numbers, both home and work, of parents, and in the case of an accident where a child requires medical attention, every effort will be made to contact parents. Should it be impossible to do so, then the child will be transferred to the Casualty Department at Withybush Hospital. It is therefore very important that the school is informed of any change in address or telephone number. Minor accidents will be dealt with by the staff.

On each school day a member of staff is on duty fifteen minutes before the commencement of school, and the same period at the end of the school day. A member of staff is always on duty at every break time. During the lunch period supervision is carried out by the lunchtime supervisors. At the end of the school day pupils will be escorted to the gates by a member of staff who will transfer the children safely to their parents. The school must be informed when arrangements have been made for a representative, on behalf of a parent, to collect a child.

Should inclement weather necessitate the early closure of the school, steps will be taken to invite parents to collect pupils, or to arrange their safe departure to their home or to the care of a person named by the parents as an emergency contact.

In the event of a child's absence from school a phone call, an email or a note of explanation is essential on the child's return to school. The class teacher must be informed should a child need to be withdrawn before the end of the school day due to dental, medical appointments etc.

Personal and Social Issues

